

# Siarad â Phobl yng Nghonwy

*Strategaeth Cynnwys ac Ymgysylltu â'r  
Gymuned Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy*



# Cyflwyniad

Mae pobl sir Conwy wedi dweud wrthym beth maent eisiau ar gyfer eu hunain a'u cymunedau. Rydym wedi gwrandao a gweithredu ar hyn ac wedi ymrwymo i sicrhau bod pobl sir Conwy:

- CANLYNIAD 1:** Yn derbyn addysg a bod ganddynt sgiliau
- CANLYNIAD 2:** Yn ddiogel ac yn teimlo'n ddiogel
- CANLYNIAD 3:** Yn byw mewn tai diogel ac addas
- CANLYNIAD 4:** Yn iach ac yn annibynnol
- CANLYNIAD 5:** Yn byw mewn sir gydag economi ffyniannus
- CANLYNIAD 6:** Yn byw mewn amgylchedd cynaliadwy
- CANLYNIAD 7:** Yn byw mewn sir lle mae treftadaeth, diwylliant a'r iaith Gymraeg yn ffynnu
- CANLYNIAD 8:** Yn cael gwybodaeth, yn cael eu cynnwys ac yn cael llais

Mae cyflawni'r wyth canlyniad hwn yn ganolog i bopeth a wnawn fel Cyngor. Rydym wedi defnyddio hyn fel sail i'n prif ddogfennau gwaith o fewn y Sir - y Cynllun Corfforaethol 2012-2017 ac Un Conwy 2012-2025.

Fodd bynnag, ni allwn gyflawni hyn ar ben ein hunain, ac rydym am wneud yn siŵr ein bod yn darparu digon o gyfleoedd i bobl sir Conwy gael gwybodaeth, cael eu cynnwys a chael llais (Canlyniad 8 uchod). Nod Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yw canolbwyntio ar y cwsmer ac mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn ei werthoedd, sy'n cynrychioli credoau ac ymddygiad disgwylidig pawb sy'n gweithio i Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy:

- Canolbwyntio ar y cwsmer
- Bod yn barchus a theg
- Bod yn ddibynadwy ac yn atebol
- Bod yn arloesol
- Cefnogi a datblygu ein tîm

Rydym wedi ymrwymo i wrando ac ymateb i'n cwsmeriaid, cymunedau, staff a phartneriaid i gymryd rhan wrth lunio penderfyniadau, gwasanaethau a pholisïau sy'n effeithio arnynt, a bod hyn yn cael ei ystyried fel rhan hanfodol o'r broses o wneud penderfyniadau o fewn y Cyngor. Bydd y cynnwys ac ymgysylltu â phobl sir Conwy yn ffurfio rhan bwysig iawn o'r wybodaeth a ddefnyddir i wneud penderfyniad. Gall ffynonellau gwybodaeth eraill fod oddi wrth arbenigwyr, astudiaethau ymchwil, canllawiau cenedlaethol neu leol, barn broffesiynol, gwybodaeth leol, ffeithiau a dylanwadau amgylchiadol neu gysylltiedig.

Mae canllaw wedi cael ei gynhyrchu ar gyfer y cyhoedd i egluro pwysigrwydd cymryd rhan yng ngwaith y Cyngor - Sut i Ddweud Eich Dweud: Datganiad Cynnwys y Gymuned - sydd i'w gael o [www.conwy.gov.uk/dweudeichdweud](http://www.conwy.gov.uk/dweudeichdweud). Mae canllaw staff wedi cael ei gynhyrchu hefyd i gynnig arweiniad ar sut i gynnwys ac ymgysylltu â'n cymunedau.

Rydym yn edrych ymlaen at weithio ochr yn ochr â phobl sir Conwy i wneud yn siŵr ein bod yn cyflawni amcanion y strategaeth hon gyda'n gilydd.

# Ymrwymiad i gynnwys ac ymgysylltu â'r gymuned

Rydym am ei gwneud mor hawdd â phosibl i bobl sir Conwy gymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau. I'n helpu i gyflawni hyn, rydym wedi cytuno cadw at Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd yng Nghymru. Yng Nghonwy mae'r term 'Ymgysylltu â'r Cyhoedd' a ddefnyddir yma yn cyfeirio at:

- Gyfathrebu
- Ymgynghori
- Cyd-gynhyrchu
- Ymgysylltu

## EGWYDDORION CENEDLAETHOL AR GYFER YMGYSYLLTU Â'R CYHOEDD YNG NGHYMRU



**1 Cynllunnir yr ymgysylltu'n effeithiol i wneud gwahaniaeth**  
Mae ymgysylltu'n rhoi gwir gyfle i ddylanwadu ar bolisiau, ar gynllunio gwasanaethau ac ar gyflwyno gwasanaethau o gyfnod cynnar.

**2 Annog a galluogi pawb a effeithir i gymryd rhan, os ydynt yn dewis hynny**  
Cynhwysir y bobl a effeithir gan fater neu newid mewn cyfleoedd i ymgysylltu fel unigolion neu fel rhan o grŵp neu gymuned, ac mae eu safbwyntiau'n cael eu parchu a'u gwerthfawrogi.

**3 Cynllunnir a chyflwynir yr ymgysylltu mewn ffordd amserol a phriodol**  
Mae'r broses ymgysylltu'n glir ac yn cael ei chyfathrebu i bawb mewn ffordd hawdd i'w deall ac o fewn amserlen resymol. Hefyd, defnyddir y dull/iau mwyaf addas ar gyfer y rhai sy'n cymryd rhan.

**4 Gweithio gyda sefydliadau partner perthnasol**  
Dylai sefydliadau gyfathrebu â'i gilydd a chydweithio lle bo modd er mwyn sicrhau bod amser pobl yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol ac yn effeithlon.

**5 Ni fydd unrhyw jargon yn rhan o'r wybodaeth a ddarperir a bydd yn briodol ac yn hawdd i'w deall**  
Mae pobl mewn sefyllfa dda i gymryd rhan yn y broses ymgysylltu oherwydd mae gwybodaeth berthnasol sydd wedi'i haddasu i ddiwallu eu hanghenion ar gael iddynt yn hwylus.

**6 Ei gwneud yn haws i bobl gymryd rhan**  
Gall pobl ymgysylltu'n hawdd oherwydd mae unrhyw rwystrau i wahanol grwpiau o bobl yn cael eu datgan ac yn cael sylw.

**7 Galluogi pobl i gymryd rhan yn effeithiol**  
Dylai'r prosesau ymgysylltu geisio datblygu sgiliau, gwybodaeth a hyder y cyfranogwyr i gyd.

**8 Rhoddir yr adnoddau a'r gefnogaeth briodol i ymgysylltu er mwyn iddo fod yn effeithiol**  
Darperir hyfforddiant, cyfarwyddyd a chefnogaeth briodol er mwyn galluogi'r cyfranogwyr i gyd i ymgysylltu'n effeithiol, yn cynnwys cyfranogwyr cymunedol a staff.


**9 Mae pobl yn cael gwybod beth yw effaith eu cyfraniad**  
Rhoddir adborth amserol i'r cyfranogwyr i gyd am y safbwyntiau a fynegwyd ganddynt a'r trafodaethau a'r camau gweithredu a gafwyd o ganlyniad; dylai dull a ffurf yr adborth roi ystyriaeth i hoffterau'r cyfranogwyr.

**10 Dysgu a rhannu gwersi i wella'r broses o ymgysylltu**  
Dylid monitro a gwerthuso profiadau pobl o'r broses ymgysylltu er mwyn mesur ei llwyddiant o ran ymgysylltu pobl ac effeithiolrwydd eu cyfraniad; dylid rhannu'r gwersi a ddysgir a'u defnyddio mewn ymgysylltu yn y dyfodol.

Cafodd yr egwyddorion hyn eu datblygu gan Cyfranogaeth Cymru trwy weithio gyda TPAS Cymru, o dan arweiniad partneriaeth Cyfranogaeth Cymru. Cawsant eu cymeradwyo gan Brif Weinidog Cymru, Y Gwir Anrhydeddus Carwyn Jones AC ar ran Llywodraeth Cymru. Mae arweiniad pellach ar yr Egwyddorion Cenedlaethol ar gael o [www.participationcymru.org.uk](http://www.participationcymru.org.uk)  
Mawrth 2011

## Beth yw cynnwys ac ymgysylltu cymunedol?

Dyma sut mae'r Cyngor yn rhoi gwybod i chi am bethau, yn defnyddio cylchlythyrau, gwefannau, taflenni, poster, cyfarfodydd, ac ati er mwyn codi ymwybyddiaeth.



Mae hyn yn ddigwyddiad mwy ffurfiol gyda dechrau a diwedd sydd wedi eu diffinio'n glir pan fyddwn ni'n gofyn am farn y cyhoedd ynglŷn â materion pwysig a allai effeithio arnynt megis newidiadau i wasanaethau, cynlluniau newydd, newidiadau i bolisiâu, ac ati. Dyma gyfle pobl i newid neu ddylanwadu ar ganlyniad unrhyw benderfyniad.

Dyma gyfle parhaus i gymryd rhan e.e. mesur boddhad cwsmeriaid, casglu adborth, arolygon, monitro ansawdd, blychau awgrymiadau, craffu, ac ati.

Pan fo gwasanaethau'r cyngor a chymunedau'n gweithio gyda'i gilydd gan wneud cyfraniad cyfartal tuag at lunio gwasanaethau, prosiectau, digwyddiadau cymunedol, ac ati

## Pam fod cynnwys y gymuned mor bwysig?

Mae nifer o resymau pam fod cynnwys y gymuned yn bwysig:

- **Hawliau** - mae gan bobl sir Conwy hawl i ddweud wrthym ba wasanaethau maent eu hangen a sut y dylid eu darparu.
- **Penderfyniadau** - gall pobl sir Conwy ddarparu ffeithiau a barn i lywio ein penderfyniadau, fel ein bod yn gwneud y penderfyniadau cywir.
- **Llais** - mae barn pobl sir Conwy yn bwysig ac rydym yn awyddus i wrando ac ymateb iddynt.
- **Adnoddau** - mae adnoddau yn gyfyngedig ac rydym eisiau sicrhau ein bod yn gwneud ein gorau i gwrdd ag anghenion pobl sir Conwy.
- **Newid** - **fe all** pobl sir Conwy wneud gwahaniaeth.
- **Hyder** - gallwn weithio gyda'n gilydd fel bod gan bobl sir Conwy fwy o hyder yn yr hyn mae'r Cyngor yn ei wneud.

## Y manteision o gynnwys pobl sir Conwy yn ein gwaith

Mae cynnwys ac ymgysylltu cymunedol yn rhan hanfodol o'n gwaith ac mae'n werthfawr. Mae yna nifer o fanteision i'r Cyngor, i'r gymuned ac i'r unigolion sy'n cymryd rhan:

### Manteision i Unigolion

- Datblygiad personol, cymdeithasol a gwleidyddol.
- Profiad ymarferol, dysgu ac ymarfer sgiliau cyfathrebu, trafod a datrys problemau.
- Siapio datblygiad a gwella gwasanaethau'r cyngor.
- Deall prosesau grwpiau a democrataidd - safbwyntiau eraill, yr angen i gyfaddawdu a chyfrifoldeb am benderfyniadau grŵp.

### Manteision i'r Gymuned

- Sicrhau pobl sir Conwy bod y Cyngor yn mynd ati i gael eu barn a'i fod yn ei werthfawrogi.
- Galluogi cymunedau lleol i fod yn rhan o nodi anghenion lleol a nodi atebion.
- Mae pobl sir Conwy yn cael eu grymuso fel dinasyddion gweithredol i ddal y cyngor a'i bartneriaid yn atebol.
- Mae cael pobl ifanc i gymryd rhan yn hyrwyddo delwedd gadarnhaol o blant a phobl ifanc.
- Hyrwyddo cynhwysiant, cydraddoldeb a chydlynid cymdeithasol ar draws y Bwrdeistref Sirol.

### Manteision i'r Cyngor

- Sicrhau bod y Cyngor yn agored ac yn ymatebol i farn pobl sir Conwy.
- Cynnig amrywiaeth eang o safbwyntiau i'r Cyngor, yn gwella cysylltiadau â'r cyhoedd yn gyffredinol.
- Ein helpu i gynllunio gwasanaethau i roi i ddefnyddwyr beth maent ei angen.
- Ein helpu i flaenoriaethu gwasanaethau a gwneud gwell defnydd o adnoddau cyfyngedig.
- Cynyddu cyfranogiad y cyhoedd yn y broses o wneud penderfyniadau.
- Gwella gallu'r cyngor i gyflawni canlyniadau.

*Pwy fyddwn ni'n gynnwys ac ymgysylltu â nhw?*

Rydym eisiau cynnig cyfleoedd i gynnwys pobl yn y ffordd yr ydym yn darparu gwasanaethau lleol a gwneud penderfyniadau lleol. Rydym o'r farn ei fod yn bwysig ymgysylltu â'r rheiny sydd fwyaf tebygol o gael eu heffeithio gan newidiadau i wasanaethau/polisiau. Gallai'r rhain fod y bobl sy'n byw neu'n gweithio yn y Fwrdeistref Sirol neu ymwelwyr.

Bydd y cofnod yng nghronfa ddata'r ymgynghoriad ar gyfer ymgynghoriad penodol yn dynodi os yw safbwyntiau grwpiau penodol yn cael eu targedu o dan 'pwy fyddwn ni'n siarad â nhw'.

Byddwn yn sicrhau bod amrywiaeth ein cymuned yn cael ei ystyried yn y ffordd yr ydym yn dewis ymgysylltu â phobl, ein bod yn sensitif i wahanol ddiwylliannau (crefydd, ethnigrwydd, ac ati), dulliau cyfathrebu (iaith, fformatau gwahanol) ac anghenion mynediad (mynediad i amgylchedd ffisegol), a'n bod yn ceisio gwrando ar y lleisiau na chlywir yn aml a chymryd camau i sicrhau eu bod yn cael eu cynnwys.

*Pryd fyddwn ni'n gynnwys ac ymgysylltu â phobl?*

Rydym yn cynnwys, cyfathrebu ac ymgysylltu â phobl ar amseroedd priodol trwy ein Gwasanaethau yng Nghonwy.

Byddwn yn cynnal ymgynghoriadau ffurfiol â'r cyhoedd pan fydd:

- Gofyniad Statudol - gofyniad cyfreithiol i ni wneud hynny.
- Ymrwymiad Polisi - newidiadau i'r gwasanaeth, newidiadau i'r polisi ac ati a fydd yn effeithio pobl yn uniongyrchol.

# Sut fyddwn ni'n cynnwys ac ymgysylltu â'r cyhoedd?

Mae yna sawl ffordd y byddwn yn anelu/cynnig cynnwys y cyhoedd:

- ✓ **Ymgysylltiad dyddiol** - Cynghorwyr, Staff - Er enghraifft, gweithwyr cymdeithasol, gweithwyr ieuenctid, casglwyr sbwriel, athrawon, cymhorthwyr swyddfa docynnau, ac ati.
  - ✓ **Gwefan** - [www.conwy.gov.uk/dweudeichdweud](http://www.conwy.gov.uk/dweudeichdweud) - Byddwn yn cynnwys yr holl ymgynghoriadau a wnawn ar ein Cofrestr Dweud Eich Dweud.
  - ✓ **Cyfryngau cymdeithasol** - Rydym bob amser yn edrych am y dulliau diweddaraf i **gynnwys pobl**, ee cyfryngau cymdeithasol. Mae gennym amryw o safleoedd Facebook a Twitter sy'n ein galluogi ni i wneud hynny.
  - ✓ **Newyddlenni, posteri, taflenni** - Gwybodaeth am gyfleoedd i ymrwymo'r gymuned yn cael ei hysbysebu trwy sawl cyfrwng.
  - ✓ **Ymgynghoriadau Ffurfiol** - pan fyddwn angen barn ar faterion penodol, datblygiadau gwasanaeth penodol, neu i gydymffurfio â'n rhwymedigaethau statudol. Mae gennym gronfa ddata o ymgynghoriadau cyhoeddus ar-lein ar [www.conwy.gov.uk/dweudeichdweud](http://www.conwy.gov.uk/dweudeichdweud) sy'n:
    - Cofrestru pob ymgynghoriad parhaus a hanesyddol yn yr awdurdod.
    - Hysbysebu ymgynghoriadau sy'n barhaus o fewn ein sefydliadau partner.
    - Cynnwys ymatebion Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy i sawl ymgynghoriad allanol.
- Bydd ymgynghoriadau hefyd yn cael eu gwneud/hysbysebu trwy ddefnyddio fformatau gwahanol fel Print Bras, Braille, CD Sain, Casét Sain neu system Easyread ar gyfer cynulleidfaoedd sy'n anodd eu cyrraedd.
- ✓ **Adborth gan gwsmeriaid** - pan fyddwn yn gofyn i bobl pa mor hapus ydyn nhw gyda'n gwasanaethau a sut y gallem wella pethau - e.e. Arolygon, Cynlluniau Awgrymiadau, ffurflenni adborth.
  - ✓ **Sylwadau, canmoliaeth neu gwynion** - Pan fydd pobl yn dweud wrthym eu barn ar bethau neu ddweud wrthym pan fyddwn yn gwneud yn dda iawn neu pan fydd rhywbeth wedi mynd o'i le [www.conwy.gov.uk/dweudeichdweud](http://www.conwy.gov.uk/dweudeichdweud)
  - ✓ **Cyfarfodydd pwyllgor** - mae ein holl gyfarfodydd pwyllgor yn gyfarfodydd cyhoeddus ac mae croeso i'r cyhoedd fod yn bresennol i wrando ar y trafodaethau (ac eithrio'r eitemau hynny ar raglenni sy'n rhaid eu categoreiddio fel rhai eithriedig). Agendâu i'w cael ar: [www.conwy.gov.uk](http://www.conwy.gov.uk)
  - ✓ **Cynllunio** - Mae ein Pwyllgor Cynllunio yn gyfarfod cyhoeddus ac mae'n rhoi'r cyfle i'r cyhoedd gymryd rhan mewn cyfarfodydd. [www.conwy.gov.uk/pwyllgor\\_cynllunio](http://www.conwy.gov.uk/pwyllgor_cynllunio)
  - ✓ **Craffu** - gall unrhyw un sy'n byw, gweithio neu astudio yng Nghonwy roi awgrymiadau am bynciau i'w hystyried yn y dyfodol - [www.conwy.gov.uk/craffu](http://www.conwy.gov.uk/craffu)
  - ✓ **Cyfarfodydd eraill** - e.e. gweithdai, cyfarfodydd cymunedol, grwpiau - efallai gofynnir i bobl ddweud eu dweud fel unigolyn neu fel rhan o unrhyw grwpiau maent yn ymwneud â hwy, megis cymdeithasau preswylwyr neu grwpiau cefnogi.

- ✓ **Cyngor Ieuencid** - Mae Cyngor Ieuencid Conwy sy'n ymwneud â phlant a phobl ifanc yn cael llais a chael dewis mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt - [cyngorieuencidconwy.org.uk](http://cyngorieuencidconwy.org.uk)
- ✓ **Cyngor Staff** - Mae'r cyngor mewnol hwn yn cefnogi deialog agored ac adeiladol rhwng staff a'r uwch dîm rheoli. Mae'r Cyngor Staff yn gweithredu mewn rôl ymgynghorol i roi cyfle i staff gymryd rhan mewn datblygu polisiau a gweithdrefnau corfforaethol.
- ✓ **Fforwm Cyngorau Tref a Chymuned** - cynhelir cyfarfodydd chwarterol rhwng y Cyngor a'i gydweithwyr mewn cyngorau tref a chymuned. Mae hyn yn golygu y ceir deialog gyda'r bobl sydd mewn cysylltiad agosach â'u cymunedau o ddydd i ddydd.
- ✓ **Bwrdd Gwasanaeth Lleol** - Rydym yn gweithio'n agos mewn partneriaeth â gwasanaethau cyhoeddus eraill megis yr heddlu, y gwasanaeth tân, gwasanaethau iechyd, sefydliadau addysg uwch ac addysg bellach, y trydydd sector, y sector busnes, diwydiannau ac ati. Mae'r holl bartneriaid hyn yn cyfrannu tuag at siapiau gwaith y Cyngor a'r gwasanaethau a ddarperir ym Mwrdeistref Sirol Conwy. [www.conwy.gov.uk/bgll](http://www.conwy.gov.uk/bgll)
- ✓ **Cyngorwyr Sir** - Efallai mai'r Cyngorwyr fydd y pwynt cyswllt cyntaf pan fydd gan rywun gwestiwn, mater neu bryder a gallent ddod â'r materion hyn i sylw'r Cyngor ar eu rhan. Mae Cyngorwyr yn chwarae rhan bwysig iawn wrth gyflawni'r Strategaeth hon. Fel 'cynrychiolwyr y cyhoedd' a 'phencampwyr y gymuned' maent yn chwarae rôl allweddol fel arweinwyr cymunedol y sefydliad. Maent hefyd yn cael effaith anferthol ar helpu'r Cyngor i gyfleu ei brif negeseuon i'r cyhoedd. Mae gan Gynghorwyr rôl bwysig i'w chwarae er mwyn sicrhau fod negeseuon craidd yn cael eu cyfathrebu, ac yn y pen draw y gwasanaethau sy'n cael eu trosglwyddo ac sy'n gwneud gwahaniaeth i bobl sir Conwy yw prif ffocws y Cyngor.
- ✓ **Cyngorwyr Tref a Chymuned** - Rydym yn gweithio'n agos mewn partneriaeth â chynghorau tref a chymuned sy'n gallu rhoi adborth i ni ar faterion o ddiddordeb o fewn cymunedau.
- ✓ **AC/AS/AS Ewropeaidd** - Rhain yw cynrychiolwyr y Sir mewn llywodraeth ganolog o fewn Cynulliad Cymru, Llywodraeth y DU ac yn Ewrop, a gallant fynd â materion ymhellach.

*Sut fyddwn ni'n defnyddio canlyniadau cynnwys ac ymgysylltu â'r cyhoedd?*

Bydd canlyniadau cynnwys ac ymgysylltu â'r cyhoedd yn cael eu defnyddio i lywio penderfyniadau a wnaed gan y Cyngor Sir a byddwn hefyd yn ystyried ffyrdd y gallant ddylanwadu ar y ffordd yr ydym yn gweithio gyda phartneriaid, er enghraifft, drwy gyfarwyddo cynlluniau integredig.

Disgwylir i'r aelodau o'r cyhoedd sy'n ymateb i ymgynghoriadau, p'un ai'n gadarnhaol neu'n negyddol, wneud hynny mewn modd adeiladol sy'n helpu'r awdurdod i lunio ei bolisiau a'i wasanaethau. Ni fydd y Cyngor yn rhoi unrhyw ystyriaeth nac adborth i ymatebion annifyr.

Er mwyn dangos ein bod wedi gwrandao, ar ôl ymgynghoriad ffurfiol byddwn yn:

- Cyhoeddi crynodeb o'r adborth a dderbyniwyd a'n hymateb iddo ar ffurf tabl Dwedoch Chi, Gwnaethom Ni, Ni Wnaethom.
- Dangos sut mae'r canlyniadau wedi cael eu defnyddio i ddylanwadu ar benderfyniadau terfynol.

- Rhoi adborth ar y canlyniadau a'r penderfyniadau i'r rheiny a roddodd o'u hamser i gymryd rhan (darperir y rhain mewn fformatau priodol fel Braille, print bras, system Easyread a thâp sain os bydd angen).
- Gwerthuso'r ymarferion ymgynghori yn unol ag Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd yng Nghymru trwy Grŵp Adolygu neu broses tebyg ac adrodd ar ddarganfyddiadau a'r gwersi a ddysgwyd i gydweithwyr a sefydliadau partner i sicrhau gwelliant parhaus mewn prosesau ymgynghori cyhoeddus.

Bydd Grŵp Asesu Cynnwys ac Ymgysylltu â'r Gymuned Corfforaethol yn cyfarfod o leiaf unwaith y flwyddyn i adolygu effaith ac effeithiolrwydd yr ymgynghoriadau sylweddol a bydd yn adrodd ei ganfyddiadau a'i argymhellion mewn adroddiad blynyddol. Bydd yr Adroddiad Perfformiad Cynnwys y Gymuned flynyddol yn cael ei adrodd trwy'r Uwch Dîm Rheoli, Pwyllgor Craffu Cwsmeriaid a'r Cabinet.

Lle codir materion nad ydynt yn uniongyrchol berthnasol ac felly ni ellir eu hystyried wrth wneud y penderfyniad, byddwn yn ystyried a ddylid eu cadw mewn cof wrth wneud penderfyniadau eraill y cyngor neu a oes angen eu cyfeirio at bartner priodol.

## Diogelu data - manylion personol

Pan fyddwn yn delio ag adborth, byddwn yn cadw at gyfreithiau diogelu data perthnasol. Ni fyddwn yn datgelu gwybodaeth bersonol i drydydd parti at ddibenion marchnata. Rydym wedi ymrwymo i gadw at Ddeddf Hawliau Dynol 1998 yn ein holl gyswllt â'r cyhoedd.